LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Cylchlythyr yr Archif Wleidyddol Gymreig
The Welsh Political Archive Newsletter

HYDREF
AUTUMN
42

2011 MANIFFESTO MANIFESTO

LLGC NLW

DERBYNIADAU – DYDDIADURON GARETH JONES
ACCESSIONS – GARETH JONES DIARIES

PAPURAU'R ARGLWYDD LIVSEY	LORD LIVSEY PAPERS
ETHOLIADAU'R CYNULLIAD	NATIONAL ASSEMBLY ELECTIONS, 2011
CARDIAU POST LLOYD GEORGE	LLOYD GEORGE POSTCARDS
DARLITH ROY HATTERSLEY	ROY HATTERSLEY LECTURE
GW ANRH RHODRI MORGAN AC	RT HON RHODRI MORGAN AM

DERBYNIADAU
ACCESSIONS

DYDDIADURON GARETH JONES DIARIES

Ar 7 Gorffennaf 2011 bu Mr Nigel Colley, Newark, swydd Nottingham yn ymweld â'r Llyfrgell unwaith yn rhagor er mwyn cyflwyno grŵp pellach o ddyddiaduron poced ei or-ewythr Gareth Vaughan Jones (1905-35), yr ieithydd, newyddiadurwr a theithiwr di-ofn a lofruddiwyd gan 'ladron' ym Mongolia Mewnol ar 12 Awst 1935. Cyflwynwyd dau grŵp pwysig o bapurau Gareth Jones i ofal y Llyfrgell yn y gorffennol.

Cwrdd â Natsiaid

O fewn y grŵp diweddaraf ceir y 'dyddiadur Hitler' enwog a gadwyd gan Jones yn ystod ei ymweliad â'r Almaen yng ngwanwyn 1933 lle disgrifia amgylchiadau byw a rhai digwyddiadau o fewn yr Almaen adeg y Natsïaid yn fuan ar ôl i Hitler ddod i rym yno. Mae hefyd yn cynnig asesiadau hynod o dreiddgar o Hitler ei hun a Goebbels. Yn Chwefror 1933, un mis ar ôl i Adolf Hitler ddod yn Ganghellor yr Almaen (a thri diwrnod yn unig cyn llosgi'r Reichstag), cafodd Gareth y 'fraint' o fod y newyddiadurwr tramor cyntaf i hedfan yng nghwmni'r arweinydd newydd ei ethol i rali yn Frankfurt-am-Main.

Mae grŵp pellach o chwe dyddiadur poced yn disgrifio mewn cryn fanylder ymweliadau Jones â Rwsia'r Sofietiaid rhwng 1931 a 1933, yn arbennig ei deithiau o fewn y wlad, a'r bobl mae'n eu cyfarfod ynghyd â disgrifiadau lliwgar o amgylchiadau'r Holodomor, y newyn erchyll a arweiniodd at filiynau o farwolaethau yn y wlad. Gareth Jones bron yn unig soniodd amdanynt mewn papurau newyddion a chylchgronau ar y pryd.

Yr Holodomor

Bu bron i bawb wadu ei sylwadau a'i ddehongliadau pryd hynny. Er i Gareth Jones ddatgelu'r gwirionedd, cyhuddwyd ef o ddweud celwyddau gan nifer o newyddiadurwyr y gorllewin a drigai ym Moscow ar y pryd. Dyddiaduron Gareth Jones efallai oedd yr unig gadarnhad annibynnol o weithred waethaf Stalin.

Yn ddiweddar roeddent i'w gweld mewn arddangosfa i goffáu ei fywyd yn Llyfrgell Wren, Prifysgol Caergrawnt, lle bu Jones yn fyfyriwr yn y 1930au. Maent hefyd wedi eu digido, a gellir gweld delweddau hollol eglur o dudalennau'r dyddiaduron ar safle we Gareth Jones ar www.colley.co.uk/garethjones/Gareth_Jones_diaries.htm.

Ceir hefyd o fewn y grŵp hwn y drwydded deithio a roddwyd i Gareth Jones ym mis Hydref 1930, sef y pasport olaf iddo ddal. Ychwanegir y llyfrau nodiadau hyn, ynghyd ag ambell i eitem arall a ddaeth i law'n ddiweddar, at yr archif o bapurau Gareth Jones oedd ym meddiant y Llyfrgell cyn hyn. Mae rhestr gyfansawdd o'r archif gyfan bron iawn yn orffenedig.

On 7 July 2011 Mr Nigel Colley of Newark, Nottinghamshire visited the Library once more in order to present a further group of the pocket diaries of his great-uncle Gareth Vaughan Jones (1905-35), the Barry-born linguist, journalist and intrepid traveller who met his death at the hands of 'bandits' in Inner Mongolia on 12 August 1935. Two significant groups of Gareth Jones's papers were presented to the Library at earlier dates.

Meeting the Nazis

The latest deposit includes the famous 'Hitler diary' kept by Jones during his visit to Germany in the spring of 1933 and describes conditions and various events in Nazi Germany shortly after the Fuehrer had come to power there and presents uncannily perceptive pen-portraits of Hitler himself and Goebbels. In February 1933, one month after Adolf Hitler had been made Chancellor of Germany (and just 3 days before the burning of the Reichstag), Gareth was afforded the 'privilege' to become the first foreign journalist to fly with the newly elected dictator to a rally at Frankfurt-am-Main.

A further group of six pocket diaries describe in some detail Jones's visits to Soviet Russia between 1931 and 1933, especially his travels there, the people whom he meets and graphic accounts of the conditions of the Holodomor, the severe famine which accounted for millions of deaths in that part of the country which later became known as the Ukraine, and which Gareth Jones almost alone reported in British newspapers and journals at the time.

The Holodomor

His observations were repudiated by almost all contemporaries. Even though Gareth Jones had revealed the truth, he was publicly denounced at the time as a liar by several Moscow resident Western journalists.

Gareth Jones's diaries, which perhaps represent the only independent verification of arguably Stalin's greatest atrocity, were recently on view as an exhibition to commemorate his life at The Wren Library, Cambridge University, where Jones studied in the 1930's. They have also been digitised, and fully legible images from these diaries may be viewed on the Gareth Jones website at www.colley.co.uk/garethjones/Gareth_Jones_diaries.htm.

This group also includes the British passport issued to Gareth Jones in October 1930, the last passport which he ever held. The notebooks, together with a few other items which came to hand recently, will be added to the Gareth Jones Papers already in the custody of the National Library. A composite list of the entire archive is also nearing completion.

01

02

01 *Yr Arglwydd/Lord Livsey*
02 *Carwyn Jones a/and Dafydd Wigley*

Papurau'r Arglwydd Livsey

Roedd y Llyfrgell yn hynod falch i dderbyn, drwy garedigrwydd y Fonesig Livsey, archif sylweddol o bapurau gwleidyddol Richard Livsey, yr Arglwydd Livsey o Dalgarth (1935-2010), cyn AS Rhyddfrydol etholaeth Brycheiniog a Maesyfed o 1985 nes iddo ymddeol o'r Senedd yn 2001, a chyn arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru. Daeth rhai ohonynt o'i gartref yn Llanfihangel Tal-y-llyn, eraill o'i swyddfa yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Ceir yn eu plith ffeiliau ar y rhychwant eang o bynciau gwleidyddol yr ymddiddorai ynddynt, gan gynnwys papurau'n ymdrin â nifer o filiau a deddfau seneddol. Mae amryw'n ymwneud â chefn gwlad a materion yr amgylchfyd. Ceir yn ogystal rhai ffeiliau'n ymdrin â datblygiad datganoli yng Nghymru, gan gynnwys trafodaethau Comisiwn Richard. Mae eraill yn deillio o weithgareddau'r Pwyllgor Dethol Cymreig a materion y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru.

–

Cardiau post Lloyd George

Roedd yn dda gan y Llyfrgell fedru prynu mewn arwerthiant ym mis Ionawr 2011 albwm o gardiau post oddi wrth nifer o aelodau o deulu Lloyd George, yn eu plith Lloyd George ei hun, a'r Fonesig Margaret. Mae rhai wedi eu hanfon pan ar deithiau tramor, eraill yn cynnwys cartwnau. Yn wreiddiol roedd yr albwm yn anrheg oddi wrth ei mam i Olwen Lloyd George ar ei phenblwydd yn un-ar-ddeg oed ym mis Hydref 1903.

Papurau'r Arglwydd Hooson

Roeddem yn falch o dderbyn, drwy garedigrwydd y Fonesig Hooson, Llanidloes, grŵp pellach o bapurau Emlyn Hooson, yr Arglwydd Hooson, AS Rhyddfrydol sir Drefaldwyn o 1962 tan 1979. Ceir yn eu plith gohebiaeth a phapurau yn adlewyrchu ei waith yn Nhŷ'r Arglwyddi a materion y Blaid Ryddfrydol Gymreig. Ceir hefyd ffeiliau ar bynciau eraill fel Apêl Cofgolofn Lloyd George, Croesfan yr Afon Hafren, datganoli, a gwleidyddiaeth Sir Drefaldwyn. Fe'u rhestrir fel rhan o bapurau helaeth yr Arglwydd Hooson sydd eisoes ym meddiant y Llyfrgell.

–

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, 2011

Diolch i gefnogaeth barod ein rhwydwaith o gysylltwyr mewn etholaethau ledled Cymru a phencadlysoedd Cymreig y pleidiau gwleidyddol, llwyddwyd i gasglu set bron yn gyflawn o faniffestos, taflenni, posteri a sticeri a gylchredwyd yn yr etholaethau Cymreig yn ystod ymgyrch ddiweddar etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Fe'u hychwanegir yn fuan at y Casgliad Effemera Gwleidyddol Cymreig fel cyfres BD4. Erys un ffeil wag yn unig, sef etholaeth Dwyrain Casnewydd, a byddem yn hynod ddiolchgar petai modd i ddarllenwyr y *Cylchlythyr* ein cynorthwyo i lenwi'r bwlch anffodus hwn. Efallai y bwriedir digido'r deunydd hwn yn y Llyfrgell yn y dyfodol agos. Cafodd rhaglenni newyddion a materion cyfoes eu recordio gan Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru.

Lord Livsey Papers

The Library was delighted to receive, through the kindness of Lady Livsey, a substantial archive of the political papers of Richard Livsey, Lord Livsey of Talgarth (1935-2010), the former Liberal MP for the Brecon and Radnor constituency from 1985 until he stood down in 2001, and former leader of the Welsh Liberal Democrats. Some derived from his home at Llanfihangel Tal-y-llyn, others from his office at the House of Lords.

They include files on the many political subjects in which he was interested, including papers concerning various bills and acts of parliament. Many concern the countryside and environmental matters. They include several files of papers concerning the progress of Welsh devolution, including the deliberations of the Richard Commission. Others relate to the proceedings of the Welsh Select Committee and the affairs of the Liberal Democrats in Wales.

–

Lloyd George postcards

The Library was pleased to be able to purchase at auction in January 2011 an album of picture postcards deriving from various members of the Lloyd George family, including cards sent by Lloyd George himself, and by Dame Margaret. Some are from foreign travels, a few comprise cartoons. The album was originally a gift to Olwen on her eleventh birthday Lloyd George from her mother in October 1903.

Lord Hooson Papers

The Library was pleased to receive, through the kindness of Lady Hooson, a further group of the papers of Emlyn Hooson, Lord Hooson, the Liberal MP for Montgomeryshire from 1962 until 1979. These include correspondence and papers reflecting his work at the House of Lords and the affairs of the Parliamentary Liberal Party. Other files cover subjects like the Lloyd George Statue Appeal, the Severn River Crossing, devolution, and Montgomeryshire politics. They will be listed as part of the extensive Lord Hooson Papers already at the Library.

–

National Assembly Elections, 2011

Thanks to the ready support of our network of contacts in constituencies throughout Wales and the Welsh headquarters of the political parties, a near-complete set has come to hand of the election manifestos and addresses, leaflets, posters and flyers distributed in the various electoral divisions during the recent National Assembly campaign. These will soon be added to the Welsh Political Ephemera Collection as series BD4. A sole empty file remains for the Newport East constituency, and we would be delighted if readers of the *Newsletter* could please help us to plug this gap. This material may be digitised at the Library in the near future. Relevant news and current affairs programme have also been recorded by the Screen and Sound Archive of Wales.

Y Gw Anrh Rhodri Morgan AC

Yn ystod wythnos olaf Ionawr 2011 dadorchuddiwyd dau bortread o Rhodri Morgan, fel cyn Brif Weinidog Cymru, o waith yr arlunydd adnabyddus Cymreig David Griffiths. Dadorchuddiwyd portread o Rhodri gyda'i gi, 'William Tell' yn y wlad ger ei gartref, yn y Senedd Gymreig ar ddydd Mercher, 25ain Ionawr. Yn olew ar gynfas, mae'n mesur 48 x 36 modfedd, a gellir ei weld yn adeilad y Senedd ar hyn o bryd.

Yn yr ail bortread, darlunnir Rhodri Morgan fel y Prif Weinidog yn ei swyddfa, yn pwyso ar ei ddesg gyda chyfarpar ei swyddfa o'i amgylch. Dadorchuddiwyd y portread, sydd bellach yng nghasgliad y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, ar brynhawn Sadwrn, 29ain Ionawr mewn seremoni arbennig yn ystafell y cyngor yn y Llyfrgell. Llywydd LlGC, Dafydd Wigley, oedd yn y gadair, ac roedd Mr Morgan a Mr Griffiths ill dau'n bresennol. Yn olew ar gynfas, mae'n mesur 50 x 40 modfedd.

–

Rt Hon Rhodri Morgan AM

Two portraits of Rhodri Morgan as former First Minister of Wales, both by the distinguished Welsh portrait painter David Griffiths, were unveiled in the last week of January 2011. A portrait of Rhodri with his dog, 'William Tell,' in the countryside near his home was unveiled at the Welsh Senedd on Wednesday, 25th January. In oils on canvas, it measures 48 x 36 inches and is currently on display at the Senedd.

In the second portrait, Rhodri Morgan, as First Minister in his office, is depicted sitting on his desk with his office paraphernalia around him. The portrait, now in the collection of the National Library of Wales, Aberystwyth, was unveiled on Saturday, 29th January at a special ceremony at the council chamber at the Library, chaired by the NLW president Dafydd Wigley, and attended by Mr Morgan and Mr Griffiths. In oils on canvas, it measures 50 x 40 inches.

DERBYNIADAU
ACCESSIONS

Ymhlith derbyniadau eraill a ddaeth i law y mae:

- *Pleidlais datganoli, Mawrth 2011* – taflenni, posteri a sticeri a gylchredwyd yn ystod ymgyrch y refferendwm, yn eu plith map darluniadol yn arddangos y canlyniad ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru (ychwanegwyd hwy at y Casgliad Effemera Gwleidyddol Cymreig). Byddem yn hapus i dderbyn deunydd pellach yn ymdrin â'r ymgyrch.
- *Mr Peter Black* – papurau ychwanegol, 1999-2005, yn ymwneud a grŵp Cymreig y Democratiaid Rhyddfrydol a grŵp y Rhyddfrydwyr Cymreig yn y Cynulliad Cenedlaethol.
- *Mr Peter Hain* – papurau ychwanegol, 1999-2005, o ddiddordeb gwleidyddol, gan gynnwys gohebiaeth, 2008-10, a deunydd yn deillio o ymgyrch etholiad cyffredinol 2010.
- *Yr Athro David Pugh, Ontario* – nodiadau, efallai ar gyfer areithiau, c. 1922, gan Lloyd George ar y gyfundrefn anrhydeddau ym Mhrydain.
- *Y diweddar Mr Pedr Lewis, Penybont-ar-Ogwr* – grŵp bychan o ddyddiaduron, gohebiaeth, torion o'r wasg a deunydd printiedig a gasglwyd ynghyd gan Mr Lewis (1923-2009), un o hoelion wyth Mudiad Gweriniaethol Cymru ar hyd ei oes. Mae mwyafrif y deunydd yn ymdrin â Mudiad Gweriniaethol Cymru, Plaid Cymru ac ymgyrchoedd megis mudiad 'Milwyr allan o Iwerddon'. Ceir hefyd lythyrau oddi wrth nifer o ffigyrau blaenllaw o fewn Plaid Cymru.
- *Mrs Ann Williams, Aberystwyth* – papurau gwleidyddol pellach ei diweddar ŵr yr Athro Phil Williams (1939-2003), gan gynnwys nodiadau ar gyfer areithiau a sgyrsiau.
- *Dr Alun Hughes, Corwen* – papurau amrywiol, gan gynnwys deunydd ar Blaid Gomiwnyddol Prydain Fawr, 1942-43, ynghyd â dau lythyr diddorol, 1970 a 1973, oddi wrth Idris Cox (NLW ex 2697). Ceir hefyd bapurau yn ymdrin ag ymchwiliadau Dr Hughes i hanes y mudiad undebau llafur yng Nghymru yn y 1970au, gan gynnwys llythyrau oddi wrth nifer o ffigyrrau gwleidyddol ac academaidd blaenllaw.
- *Mrs Greta George, Criccieth* – papurau ychwanegol ei diweddar ŵr Dr W.R.P. George (1912-2006), llawer yn ymwneud ag Eisteddfod Genedlaethol 1992 yn Aberystwyth pan roedd yn archdderwydd.
- Papurau gwleidyddol a chyfreithiol y diweddar *Mr Leo Abse AS* (1917-2008), yn eu plith nifer o ffotograffau.

Other accessions which have come to hand during the year include:

- *Devolution referendum, March 2011* – leaflets, posters and flyers circulated during the referendum campaign, including an illustrative map of the results in each Welsh local authority (added to the Welsh Political Ephemera Collection). We would be happy to receive further materials deriving from this campaign.
- *Mr Peter Black* – additional papers, 1999-2005, relating to the Welsh Liberal Democrat group and the Liberal Democrat National Assembly group.
- *Mr Peter Hain* – further papers, 2002-10, of political interest, including correspondence, 2008-10, and material deriving from the 2010 general election.
- *Professor David Pugh, Ontario* – notes, probably speech notes, c. 1922, by Lloyd George on the honours system in Britain.
- *The late Mr Pedr Lewis, Bridgend* – a small group of diaries, correspondence, press cuttings and printed material assembled by Mr Lewis (1923-2009) of Bridgend, a lifelong pillar of the Welsh Republican Movement. Most of the material relates to the Welsh Republican Movement, Plaid Cymru and to campaigns like the 'Troops out of Ireland' movement. There are also letters from several prominent figures within Plaid Cymru.
- *Mrs Ann Williams, Aberystwyth* – further political papers of her late husband Professor Phil Williams (1939-2003), including notes for addresses and speeches.
- *Dr Alun Hughes, Corwen* – miscellaneous papers, including material on the Communist Party of Great Britain, 1942-43, and two interesting letters, 1970 and 1973, from Idris Cox (NLW ex 2697). There are also papers deriving from Dr Hughes's researches into the history of the trades union movement in Wales during the 1970s, including letters from a rich array of political and academic figures.
- *Mrs Greta George, Criccieth* – further papers of her late husband Dr W.R.P. George (1912-2006), many relating to the 1992 national eisteddfod at Aberystwyth when he was the archdruid.
- Further political and legal papers of the late *Mr Leo Abse MP* (1917-2008), including several photographs.



Mr David Lewis Jones

Mr David Lewis Jones

Roedd pawb sydd yn gysylltiedig â'r AWG yn flin dros ben i glywed am farwolaeth ryfeddol o ddisyfyd, ar 15 Hydref 2010, Mr David Lewis Jones (1945-2010) a wnaeth ymddeol yn gymharol ddiweddar o'i swydd fel Llyfrgellydd Tŷ'r Arglwyddi. Llawer cynharach yn ei yrfa nodedig, gwasanaethodd am rai blynyddoedd fel llyfrgellydd y gyfraith yn Llyfrgell Hugh Owen, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Bu David yn aelod o bwyllgor ymgynghorol yr AWG am nifer o flynyddoedd, gwnâi pob ymdrech i fynychu cyfarfodydd o'r pwyllgor lle gwerthfawrogwyd ei gwmni rhadlon a'i awgrymiadau cynorthwyol. Roedd yn aelod gwerthfawr o'r pwyllgor oherwydd ei rychwant eang o gysylltiadau. Ymddeolodd fel aelod o'r pwyllgor yn 2006.

Roedd David Jones, ac yntau'n ddarllenydd achlysurol yn y Llyfrgell Genedlaethol, yn ysgolhaig ei hun, gan iddo gyhoeddi erthyglau pwysig, rhestri o draethodau ymchwil, a nifer o gofnodion sylweddol, seiliedig ar ymchwil eang, yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Gwasanaethodd hefyd fel ysgrifennydd diflino Apêl Cofgolofn Lloyd George dros nifer o flynyddoedd, a phenodwyd ef yn CBE yn 2005.

Mr Ian Barton

Ar 13 Mawrth 2011, bu farw Mr Ian Barton, Llanbedr Pont-Steffan, yn 84 mlwydd oed. Bu cynt yn uwch-ddarlithydd yn y Clasuron yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, lle treuliodd llawer o'i yrfa yn dysgu, yn cyhoeddi erthyglau, ac yn golygu llyfrau ar Bensaernïaeth Glasurol Rufeinig. Ar ddwy adeg bu'n Bennaeth Gweithredol Adran y Clasuron, a gwasanaethodd yn ei dro fel Deon Cyfadran y Celfyddydau ym 1975.

Am nifer o flynyddoedd Mr Barton oedd cynrychiolydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar bwyllgor ymgynghorol yr AWG. Mynychodd bron bob cyfarfod o'r pwyllgor a'r darlithiau blynyddol nes iddo benderfynu ymddeol yn 2006, i'w olynu gan Dr Russell Deacon, Caerdydd. Cyfrannai Mr Barton yn gyfoethog a chwrtais at drafodaethau'r pwyllgor bob amser, a gwelir ei eisiau'n fawr gan yr aelodau eraill.

Mr David Lewis Jones

All those associated with the WPA were very sorry to learn of the extremely sudden death on 15 October 2010 of Mr David Lewis Jones (1945-2010) who had fairly recently retired from the position of the Librarian of the House of Lords. Much earlier in his distinguished career, he had served for some years as the law librarian at the High Owen Library of the University College of Wales, Aberystwyth.

David was a member of the advisory committee to the Welsh Political Archive for several years, made every effort to attend committee meetings where his genial company and helpful suggestions were always much appreciated. His wide range of associates made him a valuable member of the committee. He retired from membership of the committee in 2006.

David Jones, also an occasional reader at the National Library, was a considerable scholar in his own right, publishing important articles, lists of research theses and several substantial, well-researched entries on Welsh politicians for the *Dictionary of Welsh Biography*. He served, too, as the indefatigable secretary to the Lloyd George Statue Appeal over many years, and was appointed CBE in 2005.

Mr Ian Barton

On 13 March 2011 the death occurred, at the age of 84 years, of Mr Ian Barton of Lampeter, formerly a senior lecturer in classics at St David's University College, where he spent much of his career teaching, publishing articles, and editing books on Roman Classical Architecture. Twice he was Acting Head of the Classics Department and he did a tour of duty as Dean of the Faculty of Arts from 1975.

For many years Mr Barton served on the WPA as the representative of the Liberal Democrats in Wales. He attended almost every meeting of the committee and the annual lectures until he decided to retire in 2006, to be succeeded by Dr Russell Deacon of Cardiff. Mr Barton always contributed richly and courteously to the committee's deliberations and he will be much missed by the other members.

THE PHENOMENON OF WELSHNESS



Ar nos Wener, 4 Mawrth 2011, ymgasglodd cynulleidfa eiddgar yn y Drwm ar gyfer lansiad cyfrol o erthyglau gan Siôn T. Jobbins a'r teitl *The Phenomenon of Welshness*, llyfr a gyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch. Siôn sydd bellach wrth y llyw yn adran farchnata'r Llyfrgell. Yna cynhaliwyd sesiwn cwestiwn ac ateb fywiog a chyffrous rhwng Siôn Jobbins a'r awdur a darlithydd adnabyddus Ned Thomas. Ceir cyfanswm o bump ar hugain o ysgrifau o fewn y gyfrol, y cyfan wedi eu cyhoeddi cynt yn *Cambria Magazine*, yn eu plith straeon amrywiol am hanes, gwleidyddiaeth a chymdeithas Cymru.

Ar adegau mae Siôn Jobbins yn cerdded llwybr canol rhwng ennyn ymateb a gwylltio'r darllenwyr. Ymhlith y pynciau a drafodir yn yr erthyglau mae sefydlu papur cymunedol yn yr iaith Gymraeg, y ddadl dros deulu brenhinol Cymreig, sefydlu traddodiadau newydd fel Gŵyl Santes Dwynwen a 'Chân i Gymru', Cymreictod dinasoedd megis Caerdydd ac Abertawe, a chymlethdodau'r iaith Gymraeg yn y byd busnes. Pris y llyfr bach hylaw hwn yw £7.50 yn unig.

On the evening of 4 March 2011, an eager audience assembled at the Drwm for the launch of a volume of articles by Siôn T. Jobbins entitled *The Phenomenon of Welshness*, published by Gwasg Carreg Gwalch. Siôn heads the marketing section at the Library. A racy and absorbing question and answer session was then held as part of the launch between Siôn Jobbins and the well-known author and lecturer Ned Thomas. A total of twenty-five articles are taken from the author's numerous contributions to *Cambria Magazine*, comprising varied tales from Welsh history, politics and society.

Siôn Jobbins sometimes walks a tightrope between being thought-provoking and provocative. Among the topics covered in the articles are establishing a Welsh-language community newspaper, the case for a Welsh royal family, establishing new traditions such as Santes Dwynwen's day and 'Cân i Gymru', the Welshness of cities such as Cardiff and Swansea, and the complexities of the Welsh language in the business world. This most attractive little volume sells for just £7.50.



DARLITH
ROY HATTERSLEY
LECTURE

Yn unol â'r disgwyl, roedd y Drwm yn orlawn ar nos Iau, 23 Medi 2010, pan draddododd yr Arglwydd (Roy) Hattersley ddarlith gyhoeddus ar y thema 'Lloyd George: y Dieithryn Amlwg'. Dyna hefyd oedd union deitl ei gofiant saith can tudalen newydd i Lloyd George [Lloyd George: the Great Outsider], cyfrol a lansiwyd yn y Clwb Rhyddfrydol Cenedlaethol yn Llundain wythnos cyn hynny gan gwmni Little, Brown. Dyma ail gyfrol ar bymtheg Roy Hattersley. Cofiannydd llawn cydymdeimlad yw Hattersley, ond nid yw'n eilunaddoli ei wrthrych chwaith. Mae'n portreadu Lloyd George drwy gydol ei destun fel gwleidydd radicalaidd teilwng, ond yn y bôn fel dyn a roddai uchelgais a phenderfyniad i lwyddo uwchlaw pob dim arall. Mr Andrew Green, Llyfrgellydd LlGC, oedd cadeirydd y ddarlith, a Dr J. Graham Jones, Pennaeth yr Archif Wleidyddol Gymreig, a draddododd y diolchiadau i'r darlithydd.

Ymchwilio yn LlGC

Yn ystod ei ymchwiliadau a'i ddarllen ar gyfer y cofiant, roedd yr awdur eisoes wedi treulio cyfnod yn LlGC yn Ionawr 2009 yn gwneud defnydd o archifau helaeth Lloyd George ynghyd â ffynonellau gwreiddiol eraill sydd ym meddiant y Llyfrgell. Bu hefyd yn cloddio'r archif o Bapurau Lloyd George sydd yng ngofal yr Archif Seneddol yn Nhŷ'r Arglwyddi. Dyma'r cofiant un gyfrol sylweddol cyntaf i Lloyd George ers i lyfr anferthol Peter Rowland ymddangos ym 1975. Cafodd cyfrol Roy Hattersley groeso cynnes gan yr adolygwyr at ei gilydd.

Siaradwr huawdl

Siaradodd yr Arglwydd Hattersley yn huawdl, heb droi at nodyn, am ryw ddeugain munud i gynulleidfa a gynhesodd at y siaradwr fel yr adroddodd nifer o straeon hynod ddifyr am Lloyd George a'i deulu. Yn y ddarlith rhoddwyd sylw llawn i'w yrfa wleidyddol a'i fywyd personol a theuluol cymhleth. Ar y diwedd gofynnwyd sawl cwestiwn pwrpasol, ac yna pwrcaswyd nifer o gopïau o'r llyfr yn siop y Llyfrgell.

The Drwm at the National Library was, as anticipated, packed on the evening of Thursday, 23 September 2010 when Lord (Roy) Hattersley delivered a public lecture on the theme 'Lloyd George: the Great Outsider'. This was the very title of his new 700 page biography of Lloyd George launched at the National Liberal Club in London just a week earlier and published by Little, Brown. This is Roy Hattersley's seventeeth published monograph. Lord Hattersley is a sympathetic, although not idolatrous, biographer, portraying Lloyd George throughout his text as a worthy radical, but basically as a man who put ambition, and a determination to succeed, above all things. Mr Andrew Green, Librarian of the NLW, took the chair at the lecture, and the vote of thanks was delivered by Dr J. Graham Jones, Head of the Welsh Political Archive.

Research at NLW

During the course of his research and reading for the biography, the author had already spent a period at the NLW in January 2009 making widespread use of the extensive Lloyd George archives and other relevant source materials in the custody of the Library. He had also quarried the Lloyd George Papers deposited at the Parliamentary Archive at the House of Lords. This is the first substantial single-volume biography of Lloyd George to be published since Peter Rowland's mammoth tome saw the light of day in 1975, and it has been generally well received by reviewers.

Fluent speaker

Lord Hattersley spoke fluently without recourse to a single note for about forty minutes to an obviously enthralled audience which clearly warmed to the speaker as he eagerly related many captivating anecdotes about Lloyd George and his family. His political career and complex personal and family life were well covered in the lecture. Many pertinent questions were asked at the end, and several copies of the book were then purchased in the Library shop.

DARLITH DR HYWEL FRANCIS LECTURE

Am 5.30 nos Wener, 5 Tachwedd 2010 traddododd y Dr Hywel Francis, AS Llafur dros Aberafan ers 2001, ddarlith flynyddol 2010 yr AWG yn y Drwm yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Teitl y ddarlith oedd 'Ireland 1916; Russia 1917; Wales?; Aberystwyth graffiti circa 1978'. Dyma'r bedwaredd ddarlith ar hugain mewn cyfres adnabyddus a sefydlwyd ym 1987.

Mae Dr Francis yn fab i Dai Francis a arweiniodd Undeb Cenedlaethol y Glowyr yn Ne Cymru drwy gydol anghydfod diwydiannol y 1970au. Bu'n cynrychioli Aberafan yn y Senedd ers 2001. Cyn ei ethol, roedd yn Athro Addysg Barhaus Prifysgol Abertawe lle sefydlodd Prifysgol Gymunedol y Cymoedd, Llyfrgell Glowyr De Cymru, ac Archif Maes Glo De Cymru. Ail-enwyd yr archif ym Mhrifysgol Abertawe yn Archifau Richard Burton erbyn hyn.

Gwleidydd ac hanesydd

Bu Hywel Francis yn weithgar ym mywyd gwleidyddol Cymru fel Cadeirydd Cyngres Cymru i Gefnogi'r Cymunedau Glofaol, a threfnydd cenedlaethol Ymgyrch 'Ie Dros Gymru' ym 1997. Fel hanesydd, cyhoeddodd yn helaeth ar gymunedau glofaol De Cymru, gan gynnwys *The Fed: a History of the South Wales Miners in the Twentieth Century* (Caerdydd, 1980) (cydawdur gyda'r Athro Dai Smith); *Miners Against Fascism: Wales and the Spanish Civil War* (Caerdydd, 1984) ac yn fwyaf diweddar y llynedd *History on Our Side: Wales and the Miners Strike of 1984-85*.

Mewn darlith a enynnodd ddiddordeb y gynulleidfa, cyflwynodd Dr Francis llawer iawn o ddeunydd hanesyddol diddorol ochr-yn-ochr â'i atgofion personol lle fu'n hel atgofion am ei blentyndod a'i fagwraeth ynghyd â'i brofiadau academaidd a gwleidyddol. Cafwyd aml i gipolwg ar hanes gwleidyddol a diwydiannol de Cymru drwy gydol llawer o'r ugeinfed ganrif, gan gynnwys cyfeiriadau at yrfa a dylanwad unigryw Dai Francis.

Testun ar y Wefan

Cafwyd nifer o gyfeiriadau diddorol at yrfa seneddol y darlithydd ei hun ers 2001, darnau o ddeddfwriaeth y bu'n gysylltiedig â hwy, a dylanwad cadarnhaol datganoli ar fywyd Cymru ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol ym 1999. Gellir gweld testun llawn y ddarlith ar safle we LlGC ar www.llgc.org.uk/fileadmin/documents/pdf/darlith_hywel_francis.pdf

On Friday, 5 November Dr Hywel Francis, the Labour MP for Aberavon, delivered the 2010 WPA annual lecture in the Drwm at the National Library.

The title of the lecture was 'Ireland 1916; Russia 1917; Wales?; Aberystwyth graffiti circa 1978'. This was the twenty-fourth public lecture in a celebrated series instituted in 1987.

Dr Francis, the son of Dai Francis, who led the South Wales NUM during the industrial unrest of the 1970s, has been the Labour Member of Parliament for Aberavon since 2001. Prior to entering Parliament he was Professor of Continuing Education at Swansea University where he founded the Community University of the Valleys, the South Wales Miners' Library and the South Wales Coalfield Archive. The entire archive at Swansea University Library has recently been re-named the Richard Burton archive.

A Politician and historian

He has been active in Welsh political life as Chair of the Wales Congress in Support of Mining Communities and national convener of the 'Yes for Wales' Campaign in 1997. As an historian, he has written widely on the South Wales mining communities including *The Fed: a History of the South Wales Miners in the Twentieth Century* (Cardiff, 1980) (written co-jointly with Professor Dai Smith); *Miners Against Fascism: Wales and the Spanish Civil War* (Cardiff, 1984) and most recently *History on Our Side: Wales and the Miners Strike of 1984-85* (2009).

In a lecture which captivated the audience, Dr Francis presented much interesting historical material alongside his personal reminiscences reflecting on his childhood and upbringing, and his academic and political experiences. There are many glimpses of the political and industrial history of south Wales during much of the twentieth century, including references to Dai Francis's unique career and influence.

Text on the Website

There are also revealing references to the lecturer's own parliamentary career since 2001, the various pieces of legislation with which he has been involved, and the positive impact of devolution on Welsh life since the setting up of the National Assembly in 1999. The full text of the lecture may be consulted on the NLW website at www.llgc.org.uk/fileadmin/documents/pdf/darlith_hywel_francis.pdf.

Cynhadledd yn Rouen

Ym Mhrifysgol Rouen ar 13 a 14 Ionawr 2011, cynhaliwyd cynhadledd ryngwladol a drefnwyd gan Yr Athro Antoine Capet ar ran y Sefydliad Ymchwil Hanesyddol. Roedd nifer sylweddol yn bresennol. Thema'r gynhadledd oedd 'Blynyddoedd o Fuddugoliaeth, Blynyddoedd o Grebachu: y Blaid Ryddfrydol, 1906-1924'. Ymhlith y siaradwyr roedd Dr J. Graham Jones, Pennaeth yr Archif Wleidyddol Gymreig, a ddarlithiodd ar 'Atgofion Rhyfel Lloyd George'.

Hefyd cafwyd darlith dreiddgar gan Dr Andrew Edwards, Prifysgol Bangor, aelod blaenllaw o bwyllgor ymgynghorol yr AWG, a gymerodd fel thema 'Y dimensiwn Cymreig, 1906-1924', a chanolbwyntiodd ar brofiadau amrywiol y Blaid Ryddfrydol yng ngogledd-orllewin Cymru yn y blynyddoedd tyngedfennol hyn. Ymhlith y siaradwyr eraill roedd Dr Martin Farr, Dr Ian Packer, Dr Pat Thane a'r Athro Andrew Thorpe. Bwriedir cyhoeddi trafodaethau'r gynhadledd ar CERCLES.

Ar 18 Chwefror darlithiodd Dr Jones i Gyfeillion Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy ar 'Briodas Lloyd George a Frances Stevenson'. Y diwrnod canlynol, 19 Chwefror, traddododd Mr Andrew Green, Llyfrgellydd LlGC, ddarlith ddarluniadol arbennig o wych i ysgol haf flynyddol Cymdeithas Lloyd George yn Llandrindod ar y pwnc 'Lloyd George a Llyfrgell Genedlaethol Cymru'.

A conference at Rouen

A well-attended international conference organized by Professor Antoine Capet on behalf of the Institute of Historical Research was held at the University of Rouen on 13 and 14 January 2011. Its theme was 'Years of Triumph, Years of Decline: the Liberal Party 1906-1924'. Among the speakers was Dr J. Graham Jones, Head of the Welsh Political Archive, who lectured on 'The Lloyd George *War Memoirs*'.

Dr Andrew Edwards of the History Department at the University of Bangor, an active member of the WPA advisory committee, took as his theme 'The Welsh Dimension, 1906-1924', and focussed on the varying fortunes of the Liberal Party in north-west Wales during these crucial years. Other speakers included Dr Martin Farr, Dr Ian Packer, Dr Pat Thane and Professor Andrew Thorpe. It is anticipated that the conference proceedings will eventually be published on CERCLES.

On 18 February Dr Jones also lectured to the Friends of the Lloyd George Museum at Llanystumdwy on 'The marriage of Lloyd George and Frances Stevenson'. The following day, 19 February, Mr Andrew Green, the NLW librarian, delivered an especially fine illustrated lecture to the annual summer school of the Lloyd George Society at Llandrindod Wells on the theme 'Lloyd George at the National Library of Wales'.

John Graham Jones

DARLITH FLYNYDDOL ARCHIF WLEIDYDDOL CYMRU 2011
WELSH POLITICAL ARCHIVE ANNUAL LECTURE 2011

'"I SETTLED WALES LAST THURSDAY" – A VIEW FROM THE FRONTIER OF BROADCASTING'
MENNA RICHARDS OBE

DRWM, LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
GWENER 4 TACHWEDD, 5.30PM

DRWM, THE NATIONAL LIBRARY OF WALES
FRIDAY 4 NOVEMBER, 5.30PM

Menna Richards OBE, cyn-Bennaeth BBC Cymru, fydd yn traddodi'r ddarlith eleni, y ddiweddaraf yn y gyfres flynyddol bwysig hon.

Menna Richards OBE, former Controller of BBC Wales, gives this year's lecture, the latest in this popular and prestigious series.

Mynediad am ddim drwy docyn

Free admission by ticket

TOCYNNAU/TICKETS
01970 632 548 – www.llgc.org.uk/drwm

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

t: 01970 632 800
f: 01970 615 709
post@llgc.org.uk

Oriau Agor Cyffredinol /
General Opening Hours

Dydd Llun – Dydd Gwener/
Monday – Friday
9:30am – 6:00pm
Dydd Sadwrn/Saturday
9:30am – 5:00pm

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

www.llgc.org.uk

ISSN 1365-9170

dylunio design **elfen.co.uk**